

Disgrifiad o Drywydd y Llwybr Arfordirol

RHAN 7: BIWMARES - MOEL Y DON

Ar y ffordd allan o **Fiwmares**, pasiwch westy'r '**Liverpool Arms**', ac ymunwch â'r promenâd o flaen yr arhosfan bysiau heibio nifer o feinciau. Yn union ar ôl yr arwyddion cyfyngu cyflymder, cymrwch y lôn - gyda'r arwydd am y cwrs golff - i'r dde. Pasiwch y fynedfa at **Gwrs Golff Baron Hill**. Yn fuan ar ôl hon, trowch i'r chwith i fyny'r lôn at **Pen-y-Parc**.

Yn y gaeaf - oherwydd bod y rhan hon yn fwdlyd - fe fyddai'n ddoeth i chi fynd ymlaen ar hyd y lôn, heibio'r gronfa ddŵr, a throi i'r chwith yn y groesffordd i ailymuno â'r llwybr yn ei ben pellaf wrth gamfa gerrig.

Ewch i'r dde oddi ar y lôn at giât mochyn wrth wal gerrig. Dilynwch y wal gerrig, croeswch drac ac ymunwch â llwybr caeedig. O borth, ewch i'r chwith at giât mochyn. Ewch drwyddi, trowch i'r chwith a cherddwch drwy gae, gan gadw ar yr ochr chwith iddi. Gan ddilyn wal, fe ddowch i giât mochyn. Ewch drwyddi, ac ewch dros y tir uwch drwy'r coed, trwy gae arall, ac ar hyd llwybr wedi'i glirio sy'n dod allan o flaen camfa gerrig wrth giât. Trowch i'r chwith a dilynwch y lôn i **Landegfan**.

Ewch heibio'r **Swyddfa Bost** a siop, ac fe ddechreuwch fynd i lawr allt, gan groesi'r ffordd i ddilyn y palmant. Cerddwch i lawr **allt Cichle**, ac ar ôl cyrraedd y ffordd fawr, trowch i'r dde. Dilynwch y ffordd dros bont **Afon Cadnant**, gan fynd i **Borthaethwy**. Ewch heibio **Nant Terrace**, ac yna i'r chwith i fyny **Ffordd Cynan ('St Georges Rd.')**. Ewch heibio'r capel ac Adran Gwyddorau Môr Prifysgol Bangor, ac wrth gyffordd 'T' wrth **Cadfan Villa**, trowch i'r dde. Mewn cyffordd o'ch blaen, ewch yn syth ymlaen, heibio'r doc, ac yna trowch i'r chwith i fynd ar y promenâd ar hyd y pier. Ewch i'r dde oddi ar y pier, yn syth yn eich blaen heibio'r '**Liverpool Arms**', ac yn y gyffordd trowch i'r chwith. Ewch heibio **Porth y Wrach**, heibio ychydig o gyffyrdd ar yr ochr dde, a lle mae'r lôn yn rhannu, ewch i'r chwith. Ewch o dan **Bont y Borth**.

Ewch i'r chwith drwy dwll yn y wal, ac ar hyd y llwybr yn y llecyn coediog heibio cerflun ar gyfer y Llwybr Arfordirol ac o amgylch cerrig gorsedd yr Eisteddfod. Gan ddod yn ôl allan ar y ffordd, trowch i'r chwith, ac yn fuan wedyn, ewch i'r chwith unwaith eto i lawr i **bromenâd y Belgiaid ('Belgian Promenade')**. O'r gyffordd lle mae sarn ('*causeway*') yn croesi at eglwys **Sant Tysilio**, ewch yn syth ymlaen ar hyd llwybr sy'n dilyn y lan, ac sy'n rhedeg y tu ôl i set o gaergewyll ('*gabions*'), gan ddilyn perimedr y **Clwb Rygbi**. Dewch allan drwy giât i mewn i le parcio, heibio gorsaf bwmpio, ac ewch i'r chwith i fyny lôn at y ffordd fawr. Yn y ffordd fawr, trowch i'r chwith, a dilynwch y ffordd drwy'r gilfan barcio gyferbyn â'r gyfnewidfa ffôn. Yn union ar ôl yr arwyddion cyfyngu cyflymder allan o **Borthaethwy**, trowch i'r chwith i fynd ar lwybr i lawr cae.

Ar waelod y cae, ewch drwy'r giât fechan a throwch i'r dde, ar draws y cae, dros ffos ddraenio, a thrwy lecyn bach o goetir. Anelwch am y giât mochyn ar waelod llinell y ffens o'ch blaen. Croeswch hi, a dilynwch y llwybr sydd wedi'i ffensio, heibio'r cerflun pren. O gyffordd yn y llwybrau, ewch yn syth yn eich blaen drwy giât fechan, ar hyd gwaelod y cae nesaf, i fynd i mewn i **Goed y Môr**. Dilynwch y llwybr clir ar hyd estyllod trwy ben isaf y coed, gan basio llwybr sy'n arwain i'r dde i fyny drwy'r coed. Croeswch ffos fawr, ac mae'r llwybr yn agor allan dan **Bont Britannia**. Ewch drwy'r bwlch yn y wal ac i'r dde, cyn y bont ei hun. Dilynwch y trac i fyny at lôn wrth **Westy Carreg Bran**. Trowch i'r chwith. Cerddwch drwy fynwent **Eglwys y Santes Fair** a dilynwch y llwybr i lawr i'r lan.

Mae rhan nesaf o'r llwybr yn cael ei chyfyngu gan y llanw - oddeutu awr y naill ochr a'r llall i'r llanw uchel a lle mae'n gadael y traeth, mae ar gau rhwng 9pm a 7am.

Trowch i'r dde, a dilynwch y lan heibio **cerflun Nelson**, am tua 250 metr. Ewch i'r dde i fyny'r grisiau a throwch i'r chwith ar hyd llwybr caeedig. Ar ôl cyrraedd y cwt cwch, ewch i'r chwith, croeswch y pier, a dilynwch y llwybr uchel. Lle mae'r llwybr yn gorffen, ewch i'r chwith i fyny drwy goetir i ddod allan ar lôn ym **Mhwllfanogl**.

Ewch i fyny'r lôn ac ar ôl cyrraedd y ffordd fawr, ewch i'r chwith dros bompren ar draws **Afon Braint**. Croeswch y lôn heibio'r porthdy ac yn fuan, croeswch y ffordd a dilynwch y pafin i'r gogledd o'r **A4080**. Ar ôl cyrraedd **Bythynnod Victoria**, ewch i'r dde ac yna'n syth i'r chwith drwy giât mochyn i ran gaeedig drwy'r caeau ac ar hyd llwybrau estyllod. Gyda hyn, fe ddowch at lôn fechan, ewch drwy'r giât mochyn a dilynwch y lôn drwy giât mewn cae ac i **Llwyn Onn**.

Yn **Llwyn Onn**, ewch drwy'r giât mochyn i'r cae, a chyda terfyn y cae i'r dde i chi, fe ddewch yn o fuan at giât mochyn. Ewch drwy'r giât a chroeswch y cae gan anelu am **Bryn Celli Wen**. Ewch drwy giât mochyn arall ac ewch i gyfeiriad y bompren. Peidiwch â'i chroesi, ond ewch i'r chwith gyda'r nant i'r dde i chi. Yn o fuan, fe ddewch at ramp sy'n arwain at y ffordd fawr. Ewch i'r chwith yma a dilynwch y ffordd, gan gymryd gofal wrth groesi'r A4080 a chan gymryd y lôn i lawr yr arfordir at **Foel y Don**.